## *Crefydd ac Esblygiad*

Derbyniwyd ymateb pellach oddi wrth Mrs Sharon King i sylwadau'r Dr John Tudno Williams yn y rhifyn diwethaf o 'Gair o'r Garn'.

I weld ei hymateb a'r drafodaeth yn ei chrynswth, ewch i www.capelygarn.org/myfyrdodau.php. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gellir cael copi ysgrifenedig o'r erthygl gan y Golygyddion.

### *Ymgyrch genhadol*

18 Medi–10 Hydref 2010

Am ragor o fanylion, ewch i:

www.walksaintdavid.co.uk

TAITH DEWI SANT
WALK SAINT DAVID



### *Swyddogion yr Ofalaeth*

*Cadeirydd*: T. Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, Aberystwyth, SY23 3JA (01970 880859)

*Is-gadeirydd*: Vernon Jones, Gaerwen, Bow St (01970 828344)

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **14 Mawrth** i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com

Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 10 Calan 2010



*... am nad oedd lle iddynt yn y gwesty*

*Annwyl ffrindiau,*

Anodd iawn yw osgoi prysurdeb a rhuthr adeg y Nadolig. Oni fuom wrthi ers wythnosau yn trefnu a pharatoi? Mae cymaint o bethau i'w gwneud cyn y "diwrnod mawr", a'r amser mor brin. Cardiau i'w postio, anrhegion i'w prynu, addurniadau i'w gosod yn eu lle, bwyd i'w goginio a phobl i'w gweld. Nawr sawl diwrnod siopa sydd ar ôl erbyn hyn? Pryd mae'r dyddiad postio olaf? Ac mae Anti Jên yn dod atom i aros dros y Nadolig eleni!

Hyd yn oed y Nadolig cyntaf hwnnw, yr oedd yna brysurdeb mawr. Dyna i chi Mair a Joseff yn gorfod teithio'r holl ffordd o dref Nasareth yng Ngalilea i Fethlehem Jwdea i ymgofrestru, pellter o ryw 70 i 80 o filltiroedd, ac ar ôl cyrraedd yno, yn darganfod bod y "ddinas" yn gyffro i gyd ac yn llawn ymwelwyr:

A welaist ti'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr
o Nasareth draw, wedi blino'n llwyr?
Bu raid imi ddweud bod y llety'n llawn
a chlywais hwy'n sibrwd, "Pa beth a wnawn?"

*W. Rhys Nicholas*

Ar yr olwg gyntaf hawdd iawn fyddai cydymdeimlo â'r tafarnwr dychmygol hwnnw ym Methlehem am wrthod galwad Mair a Joseff am le yn y llety. Wedi'r cyfan, ni allai fod wedi gwneud dim arall. Roedd y gwesty'n llawn. O leiaf, chawsant mo'u hanfon yn ôl i'r stryd; rhoddodd gysgod iddynt yn llety'r anifail. Ond gellir beirniadu'r tafarnwr hefyd am na ddangosodd fwy o dosturi tuag at y ddau anghenus. Pam na allai fod wedi dod o hyd i ryw gornel bach iddynt yn y gwesty ac yntau'n gwybod yn iawn fod y fam ifanc yn disgwyl baban unrhyw funud? Ai am ei fod mor brysur? Roedd cymaint o bethau yn hawlio'i sylw. Roedd pobl yn heidio i Fethlehem i dalu trethi ac yn chwilio am le i aros. A phe bai e wedi cynnig llety i Mair a Joseff, byddai hynny wedi golygu gorfod troi rhai o'r ymwelwyr mwyaf cyfoethog o'r neilltu. Felly, yng nghanol rhuthr a phrysurdeb Bethlehem, mewn beudy llwm y ganwyd y Baban.

Eleni eto, fel pob Nadolig arall, bydd yr Iesu'n curo ar ddrysau calonnau'r ddynoliaeth ac yn erfyn am gael mynediad. Yn anffodus, ei wrthod a wna'r mwyafrif am eu bod yn ei weld fel ymyriad ar eu bywydau prysur.

## Pobl y Gellir eu Hepgor:
## Caethwasiaeth yn y Byd Heddiw



Arddangosfa yn Oriel 1
Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
tan 9 Ionawr 2010

Heddiw, dros 200 mlynedd ar ôl i'r fasnach gaethweision ar draws yr Iwerydd gael ei diddymu, amcangyfrifir bod 27 miliwn o bobl ledled y byd yn parhau'n gaeth o fewn y drefn honno. Mae'r arddangosfa hon, sy'n cynnwys gwaith wyth ffotograffydd newyddiadurol blaenllaw, yn amlygu rhai agweddau digon annifyr ar y byd cyfoes, lle rhoddir cymaint o bwys ar bethau materol.

Gweithdai ac Adnoddau
ar gyfer
Gweithwyr Plant,
Ieuenctid ac
Athrawon Ysgolion Sul
16 Ionawr 2010
9.45 am–3.30 pm

Coleg Bala

Ydi'r hyn a wnawn yn iawn?

## *Ffair Nadolig y Garn*



Cynhaliwyd y ffair flynyddol bore Sadwrn, 28 Tachwedd, yn Neuadd Rhydypennau. Fe'i hagorwyd gan Alan ac Ann Wynne Jones a chyflwynwyd blodau iddynt gan William a Gerwyn, Caergywydd.



Trefnwyd y ffair gan y Chwiorydd ac fe hoffent ddiolch i bawb a helpodd ac a gefnogodd yr ymdrech flynyddol hon.

Trosglwyddir £1,000 o'r elw i goffrau'r eglwys.

Ydy, mae E'n gallu bod yn dipyn o niwsans! Mae'n medru herio ein gwerthoedd a'n safonau moesol. Mae'n mynnu codi ei lais yn erbyn anghyfiawnder cymdeithasol a gwleidyddiaeth eithafol. Ni all yr un sefydliad gwleidyddol a chymdeithasol ei gadw'n dawel. Nid dyn y "status quo" mohono. Mae'n herio unrhyw wladwriaeth a rydd bwys ar arfogaeth lawn. Mae rhyfelgarwyr a chyfundrefnau gwleidyddol llwgr yn ennyn ei lid. Tybed ar ba ddrysau enwadol y bydd yn curo'r Nadolig hwn? Yr Eglwys Bresbyteraidd? Yr Eglwys Fedyddiedig? Yr Eglwys Anglicanaidd? Dydw i ddim yn meddwl y byddai gan yr Iesu ryw lawer i'w ddweud wrth enwadaeth rywsut. Am hynny, efallai na châi ryw lawer o groeso gennym yn yr eglwysi heddiw, mwy nag a gafodd yn y synagogau yn y ganrif gyntaf.

Ond nid curo ar ddrysau ein calonnau yn ystod y Nadolig yn unig a wna'r Iesu, mae'n parhau i wneud hynny ar hyd yr amser. Yn nhymor yr hydref y flwyddyn nesaf cynhelir cenhadaeth gyffrous yn Aberystwyth a'r cylch a fydd yn rhan o genhadaeth ehangach ar draws siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion. Cydlynir y genhadaeth gan y mudiad *Through Faith Missions* a'i nod yn syml iawn fydd dwyn Teyrnas Dduw at y tyrfaoedd sy'n sefyll ar yr ymylon, er mwyn iddynt allu dod o hyd i'r croeso mwyaf yng Nghrist a derbyn maddeuant, cymod a thangnefedd yn Nuw.

Dychmygwch yr olygfa! Twr o genhadon yn cyrraedd eich pentre, yn mynd o ddrws i ddrws i rannu'r Newyddion Da, yn mynychu digwyddiadau o bob math, megis boreau coffi, cyfarfodydd cymdeithasol, gwasanaethau ysgolion a hefyd yn ymweld â'r tafarndai i sgwrsio â'r cwsmeriaid. Yn feiddgar, ond nid yn ymosodol, fe fydd y cenhadon yn curo ar ein drysau ac yn ein herio i ddod i adnabod Iesu Grist fel ein Harglwydd personol. Dyma waith a chyfrifoldeb pob Cristion a braint i ni fel eglwysi'r ofalaeth fydd cael bod yn rhan o'r genhadaeth werthfawr hon.

Yn y cyfamser, wrth i ni baratoi i ddathlu'r Nadolig eleni, gadewch i ni sicrhau ein bod yn ymateb i alwad taer yr Iesu drwy agor iddo ddrysau ein calonnau led y pen. Peidiwn â'i anwybyddu yng nghanol prysurdeb yr Ŵyl. Rhown ein hewyllys iddo, ein doniau a'r cyfan a feddwn, ein bywyd oll.


Nadolig Llawen i bob yr un ohonoch a Blwyddyn Newydd Dda.

Yr eiddoch yng Nghrist,


**Wyn Morris** (Bugail)

# Tudalen y Plant


Tynnwch linell ar hyd y llwybr a gymerodd y doethion:



Chwiliwch am y geiriau yma yn y seren:-




Wedi taith hir a chaled ac ymweliad â brenin Herod, arweiniodd y seren y doethion i'r tŷ lle 'roedd yr Iesu a'i rieni a chyflwyno anrhegion gwerthfawr iddo.

| | | |
|---|---|---|
| **AUR** – Fe ddaeth o bosib o Sheba yn Arabia. Hwn oedd y puraf o'r holl fetalau, ac yn anrheg addas i frenin.  | **THUS** – Daw hwn o risgl coeden yn Arabia ac mae ganddo arogl melys wrth ei losgi. Mae'n un o'r pêraroglau gwerthfawrocaf, ac mae'r Iddewon yn ei ddefnyddio yn eu cyfarfodydd.  | **MYRR** – Sudd o bren myrr o Arabia yw hwn ac mae'n chwerw. Mae ganddo berarogl ac mae hwn eto yn werthfawr iawn. Fe'i ddefnyddiwyd i ladd poen, i buro, a'i ddodi ar gyrff cyn eu claddu.  |

Y dasg y tro hwn yw arwain y doethion i'r stabl a chwilio am y geiriau yn y seren.

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **diwedd Ionawr**.

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

**Llongyfarchiadau i Gwydion Williams, Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**



Fe fu aelodau Cymdeithas y Borth yn diddori aelodau Cymdeithas Lenyddol y Garn nos Wener, 11 Rhagfyr.

Yn ystod y noson, cafwyd ymweliad annisgwyl gan Scrooge, gyda chymorth Mary Thomas, Dolgelynnen.



***Y Gerlan***

*Cyfarfod Diolch*

Cynhaliwyd yr uchod nos Wener, 25 Medi, gyda'r Parch. Andrew Lenny yn ein harwain. Cawsom bregeth rymus ganddo gyda naws llawn diolch yn treiddio'r oedfa. Llywyddwyd gan y Parch. Richard Lewis, ac Eurgain Rowlands oedd wrth yr organ.

*Bedydd*

Fore Sul, 1 Tachwedd, dan arweiniad y Gweinidog, bedyddiwyd Harri Morgan James, mab ieuengaf Gwyn ac Yvonne James, Llanilar, ac ŵyr John a Glenys James, Brynffynnon (Moelcerni). Roedd cynulleidfa o berthnasau a chyfeillion yn bresennol, heb anghofio Jac, y brawd hynaf, ynghyd â Ceredig Evans, ei hen dad-cu. Yr organydd oedd Eurgain Rowlands a rhoddwyd y blodau gan Glenys James.

*Symud Ardal*

Mae yna ddwy eglwys yn cyd-addoli yn y Gerlan er 1990, ac mae'r uniad wedi bod yn llwyddiant mawr. Dod atom o eglwys y Morfa wnaeth Des a Nansi Hayes (fel eraill), a rhaid yw cydnabod eu gwasanaeth a'u ffyddlondeb nodedig. Dyma ddau a wnaeth wasanaeth mawr yn y Gerlan ac yn y gymdogaeth.

Nodyn trist a gafwyd felly yn yr oedfa nos Sul, 6 Rhagfyr, gan ein bod yn gorfod ffarwelio â hwy. Erbyn hyn maent wedi symud i fyw yng Nghaerfyrddin, gan adael bwlch mawr ar eu hôl ar ôl bod yn y Borth am yn agos i hanner canrif. Cafwyd gair gan Berwyn Lewis a'r Parch. Wyn Morris ac fe fydd gwerthfawrogiad o'u gwaith yn y rhifyn nesaf.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

| | |
|---|---|
| 31 Rhagfyr: | Gwylnos dan arweiniad y Bugail<br>Capel y Garn am 11.30 pm |
| 20 Ionawr: | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel y Garn am 2 o'r gloch |
| 15 Chwefror: | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 28 Chwefror: | Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 24 Mawrth: | Pwyllgor Ymgynghorol 'Os Mêts'<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 2 Ebrill: | Oedfa gymun yr Ofalaeth, bore'r Groglith<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 4 Ebrill: | Oedfa Basg yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Ymunwch gyda ni
i groesawu'r
Flwyddyn Newydd mewn
ysbryd o fyfyrdod ac addoliad
dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn nos Iau,
31 Rhagfyr am 11.30 o'r gloch



## *Gwasanaeth Nadolig yr Ofalaeth*





Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ofalaeth bore Sul, 13 Rhagfyr, yng Nghapel y Garn. Cyflwynodd plant yr ysgol Sul stori'r Nadolig ac iddi dinc cyfoes ac 'amgen'. Y llefarwyr oedd Glesni, Teleri a Rhys, ac unodd y gynulleidfa gyda'r plant i ganu'r gân boblogaidd 'Haleliwia' i gyfeiliant gitâr Rhodri. Yna cafwyd neges bwrpasol i'r plant gan y Gweinidog. Trwy gyfrwng dau barsel oedd yn edrych yn wahanol iawn i'w gilydd ar y tu allan, fe'n hatgoffodd mai'r hyn sydd y tu mewn sydd yn bwysig mewn gwirionedd.

Hyfforddwyd y plant gan athrawon a rhieni'r ysgol Sul, dan gyfarwyddyd Dr Rhodri Llwyd Morgan, a chyfeiliwyd i'r emynau gan Miss Kathleen Lewis.

## *Alcohol ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010*

Yn eu cyfarfod diweddar, gan y teimlid bod amrywiaeth barn ynglŷn â'r mater ymysg aelodau'r eglwys, penderfynodd Swyddogion y Garn anfon llythyr at Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwraig yr Urdd, yn holi am drefniadau arlwyo bwyd a diod yn yr Eisteddfod ac am wybodaeth am unrhyw raglen hyfforddi a oedd gan y mudiad i addysgu ieuenctid i feithrin agweddau cyfrifol tuag at beryglon alcohol.

Dyma ran o'i hymateb:

Mae arolygon a gynhaliwyd ar y Maes ers 2003 wedi dangos cefnogaeth fach i'r syniad o weini alcohol a hynny heb unrhyw gwestiwn penodol ar y pwnc. Roedd profiad a thystiolaeth eisteddfodau 2005 a 2009 yn tanlinellu'r gefnogaeth i'w syniad o weini alcohol ac fe ddangoswyd pa mor llwyddiannus oedd y cyfan yng nghyd-destun awyrgylch yr ŵyl.

Y nod wrth weini alcohol yw cynnig adnodd ychwanegol i'r Maes. Mae angen cadw mewn cof nad gŵyl i blant a phobl ifanc yn unig yw Eisteddfod yr Urdd ond gŵyl i drawstoriad eang o bobl – o'r plant bach i'r henoed – ac mae dyheadau a dymuniadau'r carfanau gwahanol o gwsmeriaid yn amrywio. Rhaid ymateb a diwallu anghenion **pob** carfan.

Nid yw pawb sy'n dod i'r Eisteddfod yn mentro dod i'r ffair; nid yw pawb yn mynychu'r rhagbrofion neu'r pafiliwn; nid yw pawb yn bwyta yng Nghaffi Mistar Urdd ac ni fydd pawb eisiau manteisio ar y Bwyty newydd a'r fwydlen wahanol. Ond fe fydd canran o eisteddfodwyr yn mwynhau'r Bwyty a'r fwydlen newydd ac yn mwynhau ymlacio gyda gwydryn o win ar ddiwedd prynhawn.

Bydd modd cynnig yr adnodd newydd i'r carafanwyr gerllaw hefyd gyda'r hwyr ac fel y profwyd ym Maes Caerdydd 2009, bydd modd ymestyn y diwrnod gan sicrhau bod stondinwyr ac arlwywyr yn elwa ac yn sgil hynny bydd yr Eisteddfod yn elwa hefyd.

*Rhaglen hyfforddi*: Nid oes gennym raglen hyfforddi benodol ynglŷn â pheryglon alcohol, ond rydym yn rhoi hyfforddiant llawn i'n swyddogion datblygu a'n gweithwyr ieuenctid ar faterion yn ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc dan eu gofal yn derbyn cyngor a chanllawiau cywir, ac mae ystyriaeth o beryglon alcohol a chyffuriau eraill yn rhan o'r rhaglen hon.

Annwyl Olygydd,

Mae ieuenctid Cymru wedi cefnogi'r Urdd trwy gymryd rhan yn ei holl weithgareddau, ac yn ddiolchgar tu hwnt i'r athrawon a'r arweinwyr cydwybodol sydd wedi rhoi o'u hamser i'w cefnogi a'u hannog ar hyd y blynyddoedd.

Roeddwn i fel llawer wedi cael siom fod trefnwyr a phenaethiaid Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn y Bala, o bob man, cartref Thomas Charles, wedi canaiatáu i fariau alcohol fod ar y maes.

Ac mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010, gŵyl plant a phobl ieuanc Cymru, yn mynd i lawr yr un llwybr – o ie, 'dim ond gyda bwyd', dyna'r esgus. Ond nid yw pobl sir Ceredigion am fynd i lawr mewn hanes fel y sir a wnaeth ganiatáu i hyn ddigwydd, ac nid yw'r plant a'r bobl ieuanc sy'n perthyn i gorau ei eisiau, fel y clywyd hwy'n datgan eu barn ar raglen *Hacio* yn ddiweddar.

'Dewch i ni wrthwynebu a mynnu na ddylid ar unrhyw gyfrif ganiatáu i alcohol gael ei roi na'i werthu mewn unrhyw ddull na modd byth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

A yw'n bosib fod arweinwyr presennol yr Urdd yn diystyru tystiolaeth Prif Feddyg Cymru, Dr Tony Jewell, fod 45,000 o bobl y flwyddyn yn gorfod mynd i ysbytai Cymru oherwydd alcohol; fod 1,600 o bobl ieuanc dan 19 oed yn cael eu cynghori i gael triniaeth; fod 1,000 o bobl yn marw oherwydd effeithiau alcohol a 500 o blant rhwng 12 a 15 oed yn gorfod cael triniaeth. A dim ond "the tip of a very big iceberg" yw hyn, yn ôl y meddyg.

Mae'r plant a'r bobl ieuanc sy'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod wedi bod yn llafurio am wythnosau yn perffeithio eu gwahanol dalentau, ac maent yn haeddu cael cynulleidfa 'sobor' i wrando arnynt a'u cymeradwyo.

'Dewch i ni ddefnyddio ein hymennydd i wrthsefyll 'BRAINS'; 'dewch i ni ysgrifennydd at y Pwyllgor Trwyddedu, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA, er mwyn iddynt wrthod trwydded alcohol ac annog yr Urdd i wneud tro pedol doeth. Bydd angen ysgrifennu cyn 1 Ionawr 2010.

Diolch am eich cefnogaeth.

*Beryl Hughes, Bow Street*

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd parti i'r plant a gymerodd ran yn y cyflwyniad.

Paratowyd y lluniaeth gan athrawon a rhieni'r ysgol Sul, a dosbarthwyd anrhegion i'r plant gan ein Gweinidog.





*Grŵp Help Llaw y Garn*

## Operation Christmas Child 2009



Unwaith eto cafwyd ymateb ardderchog i'r ymgyrch Operation Christmas Child. Derbyniwyd 59 o focsys sgidie wedi'u llenwi i'r ymylon a £258 mewn rhoddion ariannol at y gost o ddosbarthu'r bocsys i wahanol wledydd. Diolch o galon i aelodau'r capel, ffrindiau yn y gymuned ac i Ysgol Sul Capel Seion am ymuno gyda ni eleni.

**APÊL STAMPIAU**

Bydd Eddie Jones yn falch o dderbyn eich hen stampiau, yn enwedig y rhai dros y Nadolig, er budd OXFAM. Diolch.

Shân Hayward
(01970 828268)

Bethan Jones
(01970 611502)





## *Sul yr Urdd*



Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Garn bore Sul, 15 Tachwedd, dan arweiniad y Gweinidog i nodi Sul yr Urdd. Soniodd Wynne Melville Jones am arwyddair y mudiad, a chafwyd ymweliad annisgwyl gan neb llai na Mistar Urdd ei hun.



Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Gruffydd Siôn, mab Geraint a Nia, a brawd Lleucu; a Tomos Llywelyn, mab Chris a Carwen, a brawd Lois. Hyfryd oedd gweld y ddau deulu ifanc hyn yn dod i gyflwyno'u babanod.

## *Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*



Thema ein hastudiaethau am eleni yw *Cwestiynau Mawr Bywyd*, yn seiliedig ar gyfrol yr Athro Euros Wyn Jones.

Dyma'r amserau a'r lleoliadau:

| | | |
|---|---|---|
| 5 Ionawr | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 12 Ionawr | Rehoboth | 7 o'r gloch |
| 19 Ionawr | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 26 Ionawr | Capel Seion | 7 o'r gloch |
| 2 Chwefror | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 9 Chwefror | Y Garn | 7 o'r gloch |
| 23 Chwefror | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 2 Mawrth | Rehoboth | 7 o'r gloch |
| 16 Mawrth | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 23 Mawrth | Capel Seion | 7 o'r gloch |
| 30 Mawrth | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 13 Ebrill | Y Garn | 7 o'r gloch |

Noder y bydd yr astudiaeth a gyflwynir yn y prynhawn yn y Garn yn cael ei hailgyflwyno yr wythnos ganlynol yn y nos.

***Croeso cynnes i bawb***

Y mae dy air yn llusern i'm troed,
ac yn oleuni i'm llwybr.

(*Salm 119, adnod 105*)



Swper cynhaeaf Os Mêts yng nghwmni Steffan Jones



## *Madog*



Prynhawn Sul, 20 Medi, mewn gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Gweinidog yng Nghapel Madog, derbyniwyd pump o bobl ifainc yr eglwys i gyflawn aelodaeth: Mared Hughes, Gwen Sims-Williams, Gwilym Sims-Williams, Llŷr Jones a Rheinallt Jones





***Sioned Elen Hughes, Capel Madog, a Llywelyn Gwynfil Evans, Tregaron, a briodwyd yng Nghapel Madog***

Pwrcaswyd organ newydd gan Gapel Madog yn ddiweddar, ac yn y llun gyferbyn gwelir organyddion yr eglwys yn ei rhoi ar brawf!
O'r chwith: Marged Haycock, Aldwyth Lewis,
Eirian Hughes ac Angharad Rowlands

## *Aelodau OS MÊTS yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau*

Mae aelodau Os Mêts wedi mwynhau profi nifer o wahanol weithgareddau'n ddiweddar.

Dechreuwyd rhaglen y tymor gyda Swper y Cynhaeaf ar 1 Hydref pan fwynhawyd cawl blasus a ddarparwyd gan Heulwen Lewis ac Aeronwy Lewis. Diolch yn fawr iddyn nhw a hefyd i Steffan Jones am gyflwyniad arbennig i'r aelodau.

Ddwywaith yn ystod y tymor cafwyd nosweithiau prysur o "Hwyl a Sbri" dan arweiniad Eleri Jones. Mae Eleri'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac fe dreuliodd y flwyddyn flaenorol yng Ngholeg y Bala. Y Parch. Wyn Morris a drefnodd y gweithgaredd, a gwerthfawrogwyd cymorth Janet Roberts ar y ddwy noson.

Aeth criw niferus i'r Llain, ger Llanarth, yn ystod yr hanner tymor a chawsant fwynhad arbennig wrth herio sawl gweithgaredd awyr agored. Trefnwyd yr ymweliad gan Ceri Williams a'r Parch. Judith Morris. Cafwyd dipyn o antur ar y ffordd yn ôl wrth i'r bws gael ei ddargyfeirio dros bant a thwyn a thrwy gaeau yn dilyn damwain ym Mlaen-plwyf. Sicrhaodd llywio gofalus Bryn Roberts fod y criw yn cyrraedd yn ôl yn saff. Diolch iddo am ei gymwynas.

Gwefreiddiwyd y gynulleidfa a ddaeth ynghyd yn neuadd Tal-y-bont, gydag aelodau o Os Mêts yn eu plith, gan gyflwyniad bywiog cwmni Arad Goch yn seiliedig ar helyntion Twm Siôn Cati. Diolch i Falyri Jenkins am y trefniadau.

Nos Iau, 3 Rhagfyr, daeth nifer i Dal-y-bont i fwynhau noson amserol "Carol a Cherdyn" gyda Falyri Jenkins, Ruth Jên, Mair Nutting a Helen Jones.

I gloi tymor prysur ac amrywiol, nos Fercher, 16 Rhagfyr, aeth aelodau Os Mêts, fel rhan o'u gweithgarwch dyngarol, i ganu carolau yn Afallen Deg. Diolch i Falyri Jenkins am ofalu am y cyflwyniadau soniarus.

Bydd cyfle i ailafael yn yr hwyl a'r gymdeithas yn y Flwyddyn Newydd. Croesewir aelodau newydd bob amser.

Wedi i gân y Bugeiliaid ddistewi,
wedi i'r seren gilio o'r ffurfafen,
wedi i'r brenhinoedd a'r tywysogion
ddychwelyd adref,
wedi i'r bugeiliaid ddychwelyd
at eu praidd,
yna bydd gwaith y Nadolig yn dechrau:
canfod y colledig,
iacháu'r clwyfedig,
bwydo'r newynog,
rhyddhau'r carcharor,
ailadeiladu'r cenhedloedd,
dwyn heddwch i blith y bobl,
creu cerddoriaeth yn y galon.

(*Howard Thurman*)

*Dymunwn*
*Nadolig Llawen*
*a Blwyddyn Newydd Dda i holl*
*ddarllenwyr Gair o'r Garn*

*Emyn Gŵyl Ddewi*



Arglwydd, gwrando'n gweddi heddiw,
I rinweddau pur ein Sant
Gael blaguro gyda'r gwanwyn
Yng nghalonnau gwâr ein plant,
Dysg yr ifanc i aredig
Pridd y grynnau caled, llwm
Lle caiff hedyn yr Efengyl
Ddaear i egino'n drwm.

Tywallt yma wlith dy fendith
Lle bu crino ar ein hiaith
Fel bo grym y pethau bychain
Eto'n bŵer ar y daith,
Sanctaidd ydyw'r dŵr a darddodd
Ar gyffyrddiad dwys ei law,
Dysg i ni, er pob temtasiwn,
Gadw'r ffynnon rhag y baw.

Maddau inni, bererinion
Sy'n gwastraffu'r dorth a'r dŵr
Am ein bod yn mynnu crwydro
I'r ffordd lydan fawr ei stŵr,
Deued eto ysbryd Dewi
I gynhyrfu tir ein gwlad,
Gyda'i ffydd dilynwn ninnau
Mewn gwyleidd-dra ei grwsâd.

*Vernon Jones*

**Mawrth**

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian Beech Hughes*

3 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
John Hefin – 'Sgrin y Meddwl'

5 Cwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd
yng Nghapel y Garn (prynhawn)

**7** Parch Gwyn Madoc Jones

**14** Bugail
Miss Beti Griffiths

15 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Byd y Ffotograffydd' – Marian Delyth

**21** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

24 Pwyllgor 'Os Mêts'
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

**28** *Sul y Blodau*
Parch Stephen Morgan

Cyngerdd gan Gôr Cantre'r Gwaelod
yng Nghapel y Garn am 7.30 o'r gloch



**Ionawr**

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**3** Parch Elwyn Pryse
Parch Ddr John Tudno Williams

6 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Dewi G Hughes – 'O Bellter y Byd Alltud'

8 Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch

**10** Parch M J Morris

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Fy Newis I': Matthew Clubb, Rhodri Morgan a Geraint Williams

**17** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

20 Cyfarfod Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel y Garn am 2 o'r gloch

22 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**24** Dr Rhidian Griffiths

**31** Bugail
Parch Eifion Roberts

## *Cyfarchion*

Llongyfarchiadau calonnog i:

Elfyn ac Anna Jones ar enedigaeth merch fach, Lois Elfyn, ar 20 Hydref, wyres gyntaf Liz Jones.



Rhai o blant yr ysgol Sul wrthi'n brysur yn paratoi collage ar thema'r Nadolig, dan arweiniad Siân Jones a Delyth Morgan

Bendithia bawb sydd ar eu taith,
A holl blant bach y ddaear faith;
Mewn hwyl a chwarae, gwers a gwaith,
O Iesu, gwylia hwy.

## Chwefror

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

3 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Yr Athro Desmond Hayes – 'Pwy Ydym Ni?'

**7** Tecwyn Jones

**14** Roger Thomas – bore yng Nghapel Noddfa
Bugail – hwyr yng Nghapel y Garn

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Cestyll Cymru' – Gerald Morgan

**21** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**28** Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

### *Cofion*

**Ar ddiwedd blwyddyn, anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at yr aelodau hynny sydd ar hyn o bryd yn methu ymuno yn y gwasanaethau o Sul i Sul, ac at unrhyw un sy'n teimlo bywyd yn feichus y dyddiau hyn.**

**Cofiwn hefyd am rai o'n plith sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar — a gobeithiwn y bydd i chi i gyd brofi o gysur y gwir Ddiddanydd.**